

# Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 151

Rhif 19

Mai 10, 2018

50c.

## SEFYDLU GWEINIDOG NEWYDD MEWN GOFALAETH NEWYDD YN SIR GÂR

Daeth cynulleidfa sylweddol iawn ynghyd yng nghapel Ebeneser, Abergwili ar bawn Sadwrn, 28 Ebrill yng Nghwrdd Sefydlu'r Parchg Emyr Gwyn Evans yn weinidog ar ofalaeth newydd Bröydd Myrddin.

'Rwy'n llawenhau o gael y cyfle i dderbyn galwad eglwysi Gofalaeth Broydd Myrddin,' meddai. 'Bydd yn hyfrydych olynu'r Parchedigion Emyr Lyn Evans a Ken Williams, fy rhagflaenwyr yn y

weinidogaeth yn y cylch, gan gydweithio gyda Christnogion eglwysi'r ofalaeth newydd i hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol, i ennill eraill i Grist ac i gynnal lamp y ffydd ym mroydd Myrddin. Braint fydd cael bugeilio pobl Crist yn yr ofalaeth, gan ymweld â chartrefi'r aelodau a dod i'w hadnabod yn ystod yr wythnosau a'r misoedd a ddaw.'

### Yn cymryd rhan

Llywyddwyd ac urddwyd gan y Parchg Ken Williams, Gorslas, ac adroddwyd hanes yr alwad gan Alun Lenny. Cafwyd darlleniadau o'r ysgrythur a chyfarchion gan y Parchedigion Ken Thomas a D. Gerald Jones. Arweiniwyd mewn gweddi



*Y Parchg Ken Williams (chwith) yn llongyfarch y Parchg Emyr Gwyn Evans ar gael ei urddo.*

gan y Parchg Gwyn Elfyn Jones. Cyflwynwyd ar ran eglwysi Bethesda'r Tymbl a Gwynfryn, Rhydaman (cyn-ofalaeth y Parchg Emyr Gwyn Evans) gan Morlais Dyfnallt Owen, ac ar ran Cyfundeb Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog gan Peter Harries. Traddodwyd gweddi'r urddo gan y Parchg Gareth Morgan Jones, a chyhoeddwyd emyn yr urddo gan y

Parchg Ddr Edwin Courtney Lewis. Estynnwyd croeso ar ran Ebeneser, Pant-teg, Siloam a Horeb gan Elonwy Phillips, ar ran Peniel a Bwlch-y-corn gan Arthur Morgan, a gan Joan M. Thomas ar ran Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Yr organydd oedd Enfys Howells, ac fe gafwyd eitem hyfryd gan blant ysgol Sul Siloam.

### Dychwelyd i'r weinidogaeth fugeiliol

Ar ôl 30 mlynedd, roedd y Parchg Emyr Gwyn Evans wedi cymryd egwyl o'r weinidogaeth fugeiliol i wneud gwaith ymchwil i gyfnod penodol yn hanes yr Annibynwyr, yng Ngholeg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, o dan oruchwyliaeth

## Walford Jones

Tristwch mawr i ni oedd clywed am farwolaeth y Parch. Walford Jones, Llandeilo, dydd Sadwrn 21 Ebrill yn 97 oed. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

yr Athro Dr D. Densil Morgan, a bregethodd yn y Cwrdd Sefydlu. Cododd ei destun o Salm 40, sy'n sôn am gyhoeddi cyfiawnder Duw yn y gynulleidfa, am ei gadernid a'i waredigaeth, ei gariad a'i wirionedd. Dymunodd yn dda i'r Parchg Emyr Gwyn Evans wrth wneud hynny yn ei ofalaeth newydd.

### Oedfa Bregethu Gyda'r Hwyr

Ar ôl i bawb fwynhau gwledd yn festri Ebeneser, teithiwyd tair milltir i fyny'r A485 i Beniel ar gyfer yr oedfa bregethu. Unwaith eto, daeth cynulleidfa sylweddol ynghyd. Llywyddwyd gan ein gweinidog newydd, gyda Daphne Jones wrth yr organ. Darllenwyd a gweddiwyd gan ddau o'r aelodau, sef y Parchedigion Tom Evans a John Gwilym Jones. Cafwyd eitem fywiog gan blant ysgol Sul Peniel, cyn i'r Parchg Beti-Wyn James bregethu. Cafodd Iesu ei groeshoelio yn y canol rhwng dau leidr, meddai, ac ar ôl yr atgyfodol fe ymddangosodd yng nghanol ei ddisgyblion. Cawsom ein siarsio fel aelodau ac eglwysi i roi Iesu Grist yng nghanol ein bywydau. Mae'r Parchg Emyr Gwyn Evans yn aelod o Gôr Llanddarog, ac fe gafwyd datganiad gwefreiddiol ganddynt o Weddi'r Arglwydd (trefniant Eric Jones) o dan arweiniad Meinir Richards. Yna, aeth pawb i'r festri unwaith eto i gael lluniaeth.

Bu'n ddiwrnod llawen dros ben, yn achlysur i'w gofio. Ar ôl oedfa'r hwyr, machludodd yr haul yn anarferol o lachar ar y gorwel. Ond mae'n wawr newydd ym Mroydd Myrddin, a hwnnw'n argoeli i fod yn un disglair.

### Lluniau a geiriau: Alun Lenny

Mae chwech eglwys Annibynnol yn perthyn i ofalaeth newydd Broydd Myrddin, cylch sy'n ymestyn tua'r dwyrain o gyrion tref Caerfyrddin ar hyd Dyffryn Tywi ac i fyny i'r bryniau uchel yng nghalon Sir Gâr. Yn y canol mae Pant-teg, un o achosion hynaf yr Annibynwyr yn y sir, a sefydlwyd yn 1669 gan Stephen Hughes 'Apostol Sir Gâr.' Mae tua 400 o aelodau a phlant yn yr ofalaeth, a ffurfiwyd trwy uno gofalaeth Peniel a Bwlch-y-corn, lle bu'r Parchg Ken Williams yn weinidog, ac eglwysi Ebeneser, Siloam, Pant-teg a Horeb, a fu o dan ofal y Parchg Emyr Lyn Evans am 42 mlynedd tan eleni. Mae yntau newydd gael llawdriniaeth drom, a dymunwn wellhad llwyr iddo.



*Rhan o'r gynulleidfa luosog ym Mheniel*

## Madagascar 1993

*Dyma'r ail o dair erthygl gan Rhiannon Gregory, Minny Street, Caerdydd, yn adrodd hanes eu hymweliad ag ynys Madagascar ym 1993.*

Ganwyd Arsène yn y brifddinas a'i fagu mewn cartref cysurus pan oedd Ffrainc mewn grym yn wleidyddol. Cafodd ei addysg gynradd ym Montpellier, Ffrainc, ac wedyn arhosodd yno a graddio yn y Brifysgol mewn Ffrangeg a Saesneg. Yna daeth nôl i F Madagascar, priodi â Pherline, cael swydd dda yn Toamasina, ac roedd ganddynt eu cartref eu hunain a char bach. Ganwyd chwech o blant iddynt ac roedd bywyd yn dda, ond erbyn 1993 roedd pethau'n wahanol iawn. Nid oedd Arsène nag unrhyw athro arall wedi cael ei dalu ers tri mis ac roedd bywyd ym Madagascar annibynnol yn galed iawn. Roeddent yn anobeithio am y dyfodol a'u plant yn ystyried ymfudo i Ffrainc. Er mawr dristwch inni clywsom am farwolaeth Arsène ychydig flynyddoedd wedyn o falaria anghyffredin. Roedd triniaeth i'w gael ond er bod y gost yn rhesymol iawn doedd yr arian ddim ganddynt i'w dalu.

### Tlodi difrifol

Ar bob llaw gwelsom dlodi affwysol. I fynd o gwmpas y dref byddem yn defnyddio'r *pousse-pousse*, sef *rickshaw*, gyda dyn yn ei dynnu. Gwelsom un ohonynt yn gwisgo un fflip-fflop. Ni allai fforddio brynu dwy. Roedd y pontydd dros yr afonydd yn aml yn frawychus a darnau'n eisiau. Roedd ein gyrwyr yn cario planciau gyda nhw i'w gosod o flaen y cerbyd lle'r oedd darnau o'r bont yn eisiau er mwyn inni gael gyrru ymlaen.

Un o'n profiadau mwyaf cofiadwy oedd ymweld ag ysgolion David Jones a Tomos Bevan.

### Calon lân

Cofiaf un ymweliad yn arbennig oherwydd roedd yr adnoddau mor druenus o brin a deallasom nad oedd yr athro yno, megis Arsène, wedi cael ei dalu am dri mis. Yna dywedodd wrthym fod y plant am ganu eu hoff gân inni. Calon Lân oedd honno a'r geiriau wedi eu cyfieithu o'r Gymraeg. Roedd eu clywed yn canu:

Nid wy'n gofyn bywyd moethus  
Aur y byd na'i berlau man

yn dorcalon a hwythau'n aml heb ddigon  
i'w fwyta.

### Rhaglen lawn

Roedd y rhaglen a baratowyd ar ein cyfer yn un llawn a phrysur. Gwelsom ddrama 'L'Arrivée des premiers Missionnaires à Toamasina' wedi ei pherfformio gan bobl ifainc yr Eglwys a chawsom sawl cyfarfod gyda llysgennad Prydain. Diwrnod cofiadwy oedd diwrnod ein hymweliad ag Ivandro lle glaniodd y cenhaden a chawsom oedfa arbennig yno gyda gweinidog ifanc yn pregethu ar destun yr Esgyrn Sychion. Roedd y polyn lle clymwyd cychod y cenhaden wrth laniu yn 1818 yno o hyd wrth ein hymyl.

Pan ordeiniwyd David Jones a Thomas Bevan yn Neuaddlwyd roedd 5000 yn bresennol mewn cyfarfod yn yr awyr agored ac ym mis Awst 1993 gorymdeithiodd tua'r un nifer o bobol, sef 5000, drwy dref Toamasina i faes agored lle'r oedd llwyfan wedi ei godi ar gyfer gwasanaeth ac areithiau. Gwahoddwyd Havard i'w cyfarch ar ran Cymru. Roedd y cyfarfod hwnnw yn un emosynol iawn fel bu cyfarfod arall pan ofynnwyd i Havard siarad am gyflwr crefydd yn y Gymru gyfoes. Ar ôl y sgwrs honno cawsom drafodaeth agored gyda llawer o gwestiynau oddi wrth y gynulleidfa am gyflwr ein heglwysi a'n gobeithion a'n hofnau am y dyfodol.

[i'w barhau]

Rhiannon Gregory

## Faint ydych chi'n gwybod am ynys Madagascar?

Eleni, rydyn ni'n dathlu 200 mlynedd ers i genhadon o Neuadd-lwyd, ger Aberaeron yng Ngheredigion, deithio i ynys Madagascar. Bydd rhaglen o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ddechrau mis Mehefin, a bydd degau o bobl o F Madagascar yn teithio i Gymru i ymuno yn y dathlu.


Ond faint ydych chi'n gwybod am F Madagascar? Dyma 10 ffaith i'ch cyflwyno i'r ynys:

1. Ynys Madagascar, sydd wedi'i lleoli oddi ar arfordir dwyreiniol Affrica, yw'r bedwaredd ynys fwyaf yn y byd. Gydag arwynebedd o 587,041km<sup>2</sup>, mae'r ynys dros 28 gwaith yn fwy na Chymru (20,779km<sup>2</sup>).
2. Mae dros 26 miliwn o bobl yn byw ym Madagascar – mwy nag sy'n byw yn Awstralia.
3. Malagaseg yw iaith Madagascar, ac mae'n cael ei siarad gan tua thri chwarter y boblogaeth.



*Delwedd gan Rei-artur pt en Rei-artur blog, CC-BY-SA-3.0, via Wikimedia Commons*

4. Enw prif ddinas Madagascar yw Antananarivo, ac mae ganddi boblogaeth o dros 2 filiwn o bobl. Tua 360,000 o bobl sy'n byw yng Nghaerdydd.
5. Coch, gwyn a gwyrdd yw baner Madagascar — yr un lliwiau â baner Cymru.
6. Mae rhai gwyddonwyr yn adnabod Madagascar fel yr 'Wythfed Cyfandir' oherwydd ei chyfoeth o anifeiliaid a phlanhigion. Mae dros hanner y rhywogaethau (species) yn unigryw i'r ynys.
7. Dim ond ym Madagascar y mae'r lemur yn byw yn y gwylt, ac mae dros gant o wahanol fathau i'w cael yno.
8. Rygbi a pêl-droed yw'r chwaraeon mwyaf poblogaidd ym Madagascar, ond dyw Madagascar a Chymru erioed wedi



*Lemur Cynffon Fodrwyog, gan Sannse, CC-BY-SA-3.0, via Wikimedia Commons*

9. chwarae yn erbyn ei gilydd yn y naill gamp na'r llall.
9. Madagascar yw un o wledydd tlotaf y byd. Mae tua hanner pobl yr ynys yn byw ar un pryd o fwyd y dydd, a chyfartaledd oes pobl yr ynys yw 65 oed (o'i gymharu ag 80 yng Nghymru).
10. Erbyn heddiw, mae dros 5 miliwn o Gristnogion yn aelodau o eglwysi ym Madagascar sy'n olrhain eu hanes yn ôl i'r cenhaden o Gymru a gyrhaeddodd yno yn 1818.



*Antananarivo, gan Bernard Gagnon, CC BY-SA 3.0, via Wikimedia Commons*

## Barn Annibynnol

### Cryfach na'r stormydd

*Superhero!* Oes gennych chi un o'r rheiny tybed? Mae cofnod cyntaf o ddefnyddio'r term Saesneg *superhero* yn mynd yn ôl i'r flwyddyn 1917 credwch neu beidio! Datblygodd llinach yr arwyr gyda threigl y blynyddoedd gan roi i'n comics, ein setiau teledu, ein ffilmiau a bellach ein gemau cyfrifiadurol a'n aps, genedlaethau o gymeriadau sy'n meddu ar bwerau goruwchnaturiol – pob un ohonynt yn llwyddo, yn y pen draw i orchfygu'r gelyn ac achub y byd.

#### Pwerau

Byddai'r *superheroes* gan amlaf yn gwisgo dillad arbennig a fyddai'n atal eraill rhag eu hadnabod. Ie, rhai sy'n dueddol o guddio ydynt. Os yw *superheroes* yn dod mewn gwisgoedd gwahanol, gwyddom yn rhy dda fod pwerau'r byd hefyd yn dod mewn gwisgoedd gwahanol gan gwato y tu ôl i fygydau gwleidyddol, economaidd a militaraid i enwi ond un neu ddau ohonynt, a symud yn llechwraidd yn ein byd. Addawant lawer, ond dinistriant fwy. A'r rhyfeddod mwyaf oll yw'r ysfa sydd gan rai i gofleidio'r pwerau hyn a'u meddiannu'n llwyr gan eu gwneud yn eiddo iddynt.

Daw pwerau dinistriol hefyd mewn gwisgoedd trychinebau naturiol, er efallai ddim cweit mor naturiol erbyn hyn, gan i ni ddysgu bod gan bob yr un ohonom ran yn

argyfwng newid hinsawdd y byd – argyfwng y mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn ymgyrchu drosto ers blynyddoedd.

Gan ein bod ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol 2018 hoffwn longyfarch yr elusen am greu ffilm mor arbennig yn y Gymraeg ar gyfer y genhedlaeth iau i gyd-fynd â'u hapêl flynyddol. Ffilm sy'n agor yn llawn cyffro ac yn hoelio sylw'r ifanc, ac ambell un hŷn, yn syth – 'mewn galaksi agos iawn iawn mae 'na blaned hynod'.

Ar y blaned hon, sy'n llawn pwerau drwg, mae dau *superhero* ifanc sy'n byw yn Haiti o'r enw Zaza a Jeffthre – dau, er yn ifanc, sydd wedi goroesi rhai o rymoedd cryfa'r ddaear – daearyn a chorwynt, ac wedi llwyddo i ailadeiladu eu cartrefi wedi dinistr y trychinebau naturiol hyn. Cawn hanes tri arall o Haiti y mae eu hanes hefyd yn ffocws Apêl Cymorth Cristnogol eleni, tri y cawn ein hannog i sefyll ysgwydd yn ysgwydd â nhw wrth iddynt geisio ailadeiladu eu bywydau.



#### Cryfder

Ond yn ôl at ffilm y plant, *Cryfach na'r Stormydd*. Mae'n cymryd tipyn o nerth i fod yn gryfach na storm. Rwy'n aml yn meddwl am y coed bytholwyrdd a oedd yn tyfu ar waelod yr ardd yng nghartref fy

CYDATH GELYDD RYDYM YN GRYFACH NA'R STORMYDD.



**Paratoi ar gyfer eich Gwasanaeth Wythnos Cymorth Cristnogol**

rheini. Safent yno'n dalsyth a chryf drwy bob tywydd. Er i'r glaw daranu yn eu herbyn a'r gwynt geisio'u diwreiddio mewn aml i storm aeafol, ac er iddynt blygu dan y pwysau, eto, roeddent yn llwyddo bob amser i sefyll yno'n gadarn beth bynnag fyddai'n eu bygwth. Rydw i'n 'nabod pobl fel 'na. Ydych chi tybed? Er i stormydd bywyd sgubo'n eu herbyn, a hynny mewn modd creulon iawn ar adegau, eto, maent yn llwyddo, yn eu cryfder mawr, i oroesi'r stormydd.

O ble caiff pobl gryfder mewn storm? O Dduw? O'u ffydd? O'r eglwys? O gefnogaeth teulu a chyfaill? Mae'n siŵr bod ffactorau gwahanol yn cyfrannu at gryfder unigolion.

Mae Cymorth Cristnogol yn credu taw o'n cefnogaeth ni'n codi arian ac yn ymgyrchu i wneud pethau'n well ar y ddaear y daw eu cryfder nhw fel elusen. Cefnogwyr Cymorth Cristnogol yw eu *superheroes!* Cawn gyfle eto'r wythnos hon i roi grym i'r elusen i helpu pobl ar draws y byd ddod dros y pethau sy'n eu bygwth, ac i ailadeiladu eu bywydau yn ogystal â'u cartrefi.

**Beti-Wyn James**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

### Ysgol Haf y Gweinidogion Mehefin 25–27, 2018

**Canolfan Halliwell  
Coleg Prifysgol Cymru  
y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin**  
Prif thema: **Gweinidogaeth: Yr Alwad  
Cadeirydd: Beti-Wyn James.**

#### Llun 25:

- 4.00 Cyrraedd, cofrestru, coffi
- 5.00 Seminar: **Yr alwad i weinyddu. I agor: Alun Tudur, Dewi Myrddin Hughes, Gwyndaf Richards**
- 6.30 Swper
- 7.30 Darlith Goffa W. T. Pennar Davies a R. Tudur Jones:  
**Alun Wyn Bevan – Y Campau ac Ysbryd Brawdol**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

#### Mawrth 26:

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Catrin Haf Williams – Y Defnydd o'r Hen**

#### Destament yn y Newydd: Trafodaethau a Datblygiadau mewn Ysgolheictod Gyfoes

- 12.30 Cinio
- 1.30 Gwibdaith dan ofal: **Dyfrig Rees.**
- 5.00 Coffi
- 5.30 Cyfarfod Busnes
- 6.30 Swper
- 7.30 Atgofion: **John Lewis Jones**
- 9.00 Epilog: **Chris Owen**

#### Mercher 27:

- 8.00 Brecwast
- 9.15 Defosiwn: **Chris Owen**
- 9.30 Astudiaeth Feiblaidd: **Euros Wyn Jones**
- 10.30 Coffi
- 11.00 Darlith a thrafodaeth: **Noel A. Davies – Gweinidogaeth Gristnogol heddiw: gwreiddiau a gorwelion**
- 12.15 Defosiwn: **Y Cadeirydd**
- 12.30 Cinio

Enwau i'r ysgrifennydd, Dyfrig Rees erbyn 5 Mehefin, fan pellaf.  
[mandydyfrig@btinternet.com](mailto:mandydyfrig@btinternet.com) 01656 648726.

Noddir yr ysgol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

## GOFALAETH NEWYDD

### Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont

Yn dilyn bwriad y Parchedigion Andrew Lenny (Seion) a Richard Lewis (Bethel) i ymddeol eleni, wedi blynyddoedd o wasanaeth cydwytodol, mae'r ddwy eglwys annibynnol uchod wedi cytuno i ffurfio gofalaeth newydd o 260 o aelodau. Mae'r eglwysi yn awyddus i roi galwad i **WEINIDOG AMSER LLAWN** i wasanaethu'r ofalaeth newydd. Bydd yn gyfle i wasanaethu mewn tref brifysgol sydd hefyd yn gartref i'r Llyfrgell Genedlaethol a sefydliadau pwysig eraill, ac mewn pentref gwledig, bywiog a Chymreig.

Rydym yn cynnig cydnabyddiaeth deilwng yn ogystal â'r costau arferol, lwfans tŷ, cyfraniad pensiwn ac ati.

Gwahoddir y sawl sydd â diddordeb i gysylltu â Leon Gibson, Cadeirydd Pwyllgor Bugeiliol Seion am fwy o fanylion.

**01970 611834**

**[eirian.gibson@btinternet.com](mailto:eirian.gibson@btinternet.com)**



*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*  
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
 Caerdydd, CF23 9BS  
 Ffôn: 02920 490582  
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*  
**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
 LL49 9UE  
 Ffôn: 01766 513138  
 E-bost: IwanLlew@aol.com

**Alun Lenny**  
 Porth Angel, 26 Teras Picton  
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
 Ffôn: 01267 232577 /  
 0781 751 9039  
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*  
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
 Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**  
**ABERTAWA SA7 0AJ**  
 Ffôn: 01792 795888  
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

### Dalier Sylw!

Cyhoeddiwr y Pedair Tudalen  
 Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r  
 Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr  
 Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
 wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â  
 chynnwys y Pedair Tudalen.

# TAITH GERDDED




Aeth criw dewr ar daith gerdded nodeddig i gasglu arian tuag at gapel Pisgah, Talgarreg ar ddiwrnod chwilboeth o wanwyn sef dydd Sadwrn 21 Ebrill. Yn tywys y criw ar y daith yr oedd Mr Lloyd Jones, Mynachlog, Talgarreg ac fe aeth plant yr ysgol Sul, yr aelodau a ffrindiau o amgylch ardal Pisgah. Ar ddiwedd y daith daeth pawb ynghyd at y byrddau yn y festri i gymdeithasu a chael te prynhawn. Cafwyd dydd hyfryd ac addysgiadol iawn. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

# Cyfrol werthfawr

Yn ystod cyfarfod yr Adran Cenhadaeth yn y Cyngor, cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol gopïau o lawlyfr defosiwn 2018 CWM i gadeirydd yr Adran, y Parchg Dylan Rhys Parri, ac i gadeirydd y Cyngor, Mr Dafydd Roberts. Yn y gyfrol yr oedd cyfraniadau, wedi eu hanfon ar ran yr Undeb, gan y Dr Hefin Jones, Caerdydd, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol, sef wythnos o fyfyrnodau a gweddiâu ar ddechrau mis Hydref.

O ran thema, dewis y ddau wrth fynd ati i ysgrifennu oedd 'Newid Hinsawdd', a chydag arbennigedd gwyddonol Hefin a chydestun Beiblaidd a diwinyddol Geraint, cafwyd cyfraniadau gwerthfawr ganddynt.

Rhennir y gyfrol ar draws y byd gan CWM.



# Dwy Gymanfa

## Cymanfa ganu Glynarthen

Crist a gyfodwyd yn wir! Cafwyd ymdeimlad o bresennoldeb yr Ysbryd Glân wrth i bawb ddod ynghyd i addoli yng ngymanfa ganu eglwys Glynarthen ar Sul 8 Ebrill. Daeth tyrfa dda at ei gilydd i dair oedfa a hynny o dan arweiniad y gweinidog y Parchedig Carys Ann, Mrs Eleri Morgan, Miss Gwenda Evans a Mrs Rhian Evans yn cynorthwyo wrth yr organ. Cafwyd canu mawl i Dduw, yng ngwir ystyr y gair o dan arweiniad Mr Iwan Wyn Parry, Dolgellau, gynt Groeslon, Dyffryn Nantlle, sy'n filfeddyg ac yn gerddor rhagorol.



## Cymanfa ganu y Wig

Cynhaliwyd cymanfa ganu Capel y Wig, Blaencelyn, Llangrannog, Ceredigion ar nos Lun y Pasg. Llywydd y Gymanfa oedd y gweinidog y Parchedig Carys Ann. Arweiniwyd y Gymanfa gan Mrs Rhiannon Lewis, Cenarth a chyfeiliwyd gan Mr Neville Evans, Ffos-y-ffin. Daeth criw da at ei gilydd i ganu mawl i Dduw wrth i ni ddathlu'r atgyfodiad rhyfeddol.

